# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/ Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 22 Medi 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6565

# 289(v5)

**Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.**

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol"

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Gofynnwyd cwestiynau 1, 2, a 5 - 8. Tynnwyd cwestiynau 3 a 4 yn ôl.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.42

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.03 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.

## 4 Datganiad gan y Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 15.14

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynnig Gofal Plant a Chymorth i'r Sector Gofal Plant

Dechreuodd yr eitem am 16.16

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7381 Rebecca Evans (Gwyr)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Awst 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 2 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7382 Rebecca Evans (Gwyr)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Awst 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 2 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 – GOHIRIWYD TAN DDYDD MAWRTH 29 MEDI

Gohiriwyd yr eitem tan ddydd Mawrth 29 Medi.

## 9 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7380** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 4 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 – TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## 11 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.14

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7378** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Awst 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 4 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 12 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 17.19, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 17.27

## Crynodeb o Bleidleisiau

### Pwynt o Drefn

Cododd Adam Price Bwynt o Drefn yn nodi bod nifer o Aelodau heddiw wedi gofyn am ddatganiad gan y Prif Weinidog i gael ei wneud yn y Senedd pe bai unrhyw fwriad i

gyflwyno newidiadau polisi ar gyfyngiadau Cofid-19. Roedd yr Aelodau wedi cael ar ddeall bod datganiad ar fin cael ei wneud, yn dilyn datganiad cynharach Prif Weinidog y DU, ac roedd yn bwysig eu bod yn cael cyfle i graffu'n effeithiol.

Dywedodd y Llywydd ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn a'i bod ar ddeall nad oedd penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud. O ystyried hynny, nid oedd yn bosibl i ddatganiad gael ei wneud yn y Senedd heno ond roedd wedi cael ar ddeall y byddai un yn cael ei wneud yfory.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.33

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 23 Medi 2020**